Hysbysiad preifatrwydd yn ymwneud â phrosesu data personol gan yr ysgol, mewn perthynas â diogelu

(Fersiwn 1.0 – er 09.08.2022)

Ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd yma

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n ymwneud â phrosesu data personol gan ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) (CBSRhCT). Mae hefyd yn ymwneud â phrosesu data personol gan ysgolion ffydd yn RhCT sy'n cael eu hariannu'n wirfoddol.

Cliciwch yma i gael rhestr lawn o'r ysgolion y mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n berthnasol iddyn nhw.

Caiff yr hysbysiad preifatrwydd yma ei ddarparu gan CBSRhCT ar gyfer ysgolion o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth diogelu data, ac ar eu rhan.

Cyflwyniad

Bwriad yr hysbysiad preifatrwydd yma yw rhoi gwybodaeth am sut y bydd yr ysgol yn defnyddio (neu'n 'prosesu') data personol am unigolion gan gynnwys ein disgyblion presennol, blaenorol a darpar ddisgyblion a'u rhieni, cynhalwyr neu warcheidwaid (y cyfeirir atyn nhw yn yr hysbysiad fel 'rhieni') i gyflawni ein swyddogaeth statudol sy'n ymwneud â diogelu.

Er ein bod ni wedi ceisio gwneud yr hysbysiad preifatrwydd yma mor glir a chryno â phosibl, mae'n bosibl y bydd y categorïau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu yn amrywio yn dibynnu ar natur y pryder diogelu, y rhai dan sylw a'r rhai sy'n cefnogi'r disgybl a'i deulu/theulu. Os oes angen rhagor o wybodaeth benodol arnoch chi am eich plentyn, mae croeso i chi gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data.

Dim ond y lleiafswm o wybodaeth bersonol sydd ei hangen mewn perthynas â'r diben fydd yn cael ei phrosesu.

Dylid darllen yr hysbysiad yma ar y cyd â Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol yr ysgol sydd ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data;

- Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol
- Polisi Diogelu Plant

Y Rheolwr Data

Yr ysgol yw'r rheolwr data ar gyfer y data personol rydyn ni'n ei brosesu, oni nodir yn wahanol. Mae hyn yn cynnwys y data personol sy'n cael ei brosesu gan y Corff Llywodraethu, pennaeth, llywodraethwyr unigol, athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth ac ati.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel rheolwr.

Sut i gysylltu â ni ynglŷn â materion neu bryderon diogelu data

Arweinydd Diogelu Data'r ysgol yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu data. Mae modd cysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data gan ddefnyddio ein dulliau cyswllt arferol; dros y ffôn, e-bost, drwy'r post a drwy alw heibio yn yr ysgol. Cliciwch yma am fanylion cyswllt.

Y Swyddog Diogelu Data

Mae CBSRhCT yn darparu gwasanaeth cymorth diogelu data i'r ysgol o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth, gan gynnwys darparu Swyddog Diogelu Data.

Mae modd cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data mewn perthynas â materion diogelu data. Fodd bynnag, rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â'r ysgol yn y lle cyntaf. Os bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn uniongyrchol mae modd i chi wneud hynny drwy e-bost i'r cyfeiriad e-bost canlynol;

- Rheoli.Gwybodaeth@rctcbc.gov.uk

Rydyn ni'n argymell, wrth i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, eich bod chi'n anfon copi o'r ohebiaeth at yr ysgol, a hithau'n rheolwr data.

Y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu

Mae'n bosibl y byddwn ni'n prosesu data personol sy'n ymwneud â'r unigolion canlynol i gyflawni ein swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â diogelu;

- Y person a fynegodd y pryder (er enghraifft, efallai mai'r person sy'n wynebu risg, athro, disgybl arall, aelod o'r teulu neu aelod o'r cyhoedd ac ati fydd hyn)
- Y person sydd mewn perygl (disgybl)
- Y person sydd o dan amheuaeth o roi'r disgybl mewn perygl
- Rhieni / perthynas agosaf / aelodau o'r teulu / cynhalwyr / unigolion eraill sy'n ymwneud â chefnogi'r plentyn
- Unrhyw berson neu bobl eraill sydd mewn perygl e.e. brodyr neu chwiorydd sydd o bosibl yn byw yn y tŷ
- Tystion (er enghraifft, efallai mai'r athro, disgybl arall, aelod o'r teulu neu aelod o'r cyhoedd ac ati fydd hyn)

Y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu

Mae'n bosibl y byddwn ni'n prosesu'r categorïau canlynol o ddata personol i gyflawni ein swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â diogelu;

Disgybl sydd mewn perygl;

- Gwybodaeth bersonol megis enw, dyddiad geni, blwyddyn/dosbarth ac ati.
- Gwybodaeth gyswllt fel cyfeiriad, rhif ffôn.
- Nodweddion (fel ethnigrwydd, iaith, iechyd, cyfeiriadedd rhywiol, cenedligrwydd a gwlad enedigol).
- Cofnodion yn ymwneud â phryderon diogelu cyfredol/blaenorol e.e. pryderon, atgyfeiriadau, deilliannau, cynlluniau, gwybodaeth ategol a thystiolaeth.
- Cofnodion yn ymwneud ag asiantaethau a gwasanaethau cymorth sy'n rhan o bethau (e.e. Gwasanaethau i Blant, Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc ac ati)

Person sy'n rhoi gwybod am y pryder

- Gwybodaeth bersonol sylfaenol fel enw, cyfeiriad, manylion cyswllt
- Teitl swydd, gwybodaeth am y cyflogwr (os yw'r person sy'n adrodd y pryder yn weithiwr proffesiynol)
- Perthynas i'r plentyn sydd mewn perygl
- Manylion y pryder

Y person sy'n achosi'r pryder

- Gwybodaeth bersonol sylfaenol fel enw, cyfeiriad, oedran, dyddiad geni, manylion cyswllt neu ddisgrifiad os nad yw'n hysbys pwy yw'r person.
- Nodweddion megis rhyw, ethnigrwydd
- Perthynas â'r disgybl
- Hawl gyfreithiol i weld y disgybl ac unrhyw orchmynion llys sy'n nodi'r hawliau o ran hynny (os yn berthnasol)
- Cofnodion yn ymwneud â phryderon diogelu cyfredol/blaenorol

Rhiant, cynhaliwr, neu aelodau eraill o'r teulu (e.e. yn y cartref neu sy'n ymwneud â chefnogi'r disgybl):

- Gwybodaeth bersonol sylfaenol er enghraifft, enw, cyfeiriad, dyddiad geni a manylion cyswllt
- Nodweddion megis rhyw, ethnigrwydd
- Perthynas â'r disgybl
- Hawl gyfreithiol i weld y disgybl ac unrhyw orchmynion llys sy'n nodi'r hawliau o ran hynny

Pam rydyn ni'n prosesu data personol

Rydyn ni'n prosesu'r data personol er mwyn cyflawni ein swyddogaeth statudol i ddiogelu disgyblion. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i'r gweithgareddau canlynol;

- Nodi neu dderbyn pryder diogelu.
- Rhoi gwybod am bryder i'r Uwch Swyddog Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant yn yr ysgol.
- Asesu'r pryder a cheisio arweiniad lle mae ansicrwydd ynghylch yr angen i wneud atgyfeiriad.
- Atgyfeirio'r pryder i'r Awdurdod Lleol (Gwasanaethau i Blant / Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH)) ac unrhyw awdurdodau perthnasol eraill megis yr Heddlu.
- Cefnogi unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei gynnal gan yr Awdurdod Lleol ac awdurdodau perthnasol megis yr Heddlu.
- Cydgysylltu a gweithio gyda'r Awdurdod Lleol, gweithwyr proffesiynol perthnasol (fel yr Heddlu a gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol), gwasanaethau cymorth ac asiantaethau i asesu anghenion y disgybl a rhoi cymorth priodol i'r disgybl a'i deulu/theulu.
- Cyfrannu at brosesau amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal e.e. darparu adroddiadau a mynychu cynadleddau, cylchoedd trafod neu gyfarfodydd craidd ac adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal.
- Ymgysylltu â rhieni/gwarcheidwaid mewn perthynas ag unrhyw bryder diogelu.
- Cofnodi'r pryder (boed yn cael ei adrodd i'r Awdurdod Lleol ai peidio), atgyfeiriadau, deilliannau, adolygiadau ac ati.
- Cefnogi trosglwyddo gwybodaeth berthnasol i Ysgol arall lle mae'r plentyn yn symud ysgol.
- Ffurflenni statudol.

Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data personol;

Yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol i ymgymryd â'n swyddogaeth statudol yn ymwneud â diogelu disgyblion yw;

- **Rhwymedigaeth Gyfreithiol - Erthygl (c) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer rwymedigaeth gyfreithiol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.**

- **Tasg Gyhoeddus -** Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.

- **Budd sylweddol i'r cyhoedd** - Erthygl 9 (2) (g) - prosesu sy'n angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith Undebol neu aelod-wladwriaeth sy'n gyfraneddol i'r nod, yn parchu hanfod hawliau diogelu data ac yn darparu mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion y person y mae'r data amdano.

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol, rheoliadau a chanllawiau sy'n ategu hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i;

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Addysg 2022
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Llywodraeth Cymru: Cadw dysgwyr yn ddiogel - Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Gan bwy neu o ble rydyn ni'n casglu data personol?

Mae'n bosibl inni dderbyn data gan;

- Y person sydd wedi mynegi'r pryder
- Y person sydd mewn perygl (disgybl)
- Y person sydd o dan amheuaeth o roi'r disgybl mewn perygl
- Unrhyw berson neu bersonau eraill sydd mewn perygl e.e. brodyr a chwiorydd
- Rhieni / perthynas agosaf / aelodau o'r teulu / cynhalwyr / unigolion eraill sy'n ymwneud â chefnogi'r plentyn
- Tystion (er enghraifft, efallai mai'r athro, disgybl arall, aelod o'r teulu neu aelod o'r cyhoedd ac ati fydd hyn)
- Gwasanaethau cymorth Awdurdodau Lleol – fel Gwasanaethau i Blant, Hwb Diogelu Amlasiantaeth, Seicolegydd Addysg, Cymorth/Cynnal Ymddygiad, Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc, Gwasanaethau i Oedolion, Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, Gweithiwr Cymdeithasol
- Gwasanaethau iechyd a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r disgybl a/neu ei deulu/theulu.
- Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg
- Cyfarfodydd aml-asiantaeth Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal, cynadleddau, grwpiau craidd ac ati.
- Asiantaethau heddlu, prawf a gorfodi'r gyfraith

Gyda phwy rydyn ni'n rhannu data personol?

Mae'n bosibl y byddwn ni'n rhannu data personol gyda'r sefydliadau allweddol canlynol i gyflawni ein swyddogaeth statudol mewn perthynas â diogelu.

Dim ond y lleiafswm o wybodaeth bersonol sydd ei hangen mewn perthynas â'r diben fydd yn cael ei rannu. Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu a'r bobl y mae'n cael ei rhannu â nhw yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y pryder a'r sefydliadau a'r asiantaethau sy'n ymwneud â chefnogi'r disgybl a'i deulu/theulu.

Pwy	Diben
Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf Morgannwg (MASH)	MASH yw'r pwynt cyswllt ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol, i roi gwybod am unrhyw bryderon am ddiogelwch ar draws Cwm Taf Morgannwg. Mae MASH yn cynnwys staff o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, yr Heddlu, Iechyd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol. Swyddogaeth statudol – atgyfeiriadau diogelu Atgyfeirio at y Garfan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth / MASH lle mae pryder diogelu wedi'i godi.
Gwasanaethau cymorth Awdurdodau Lleol, partneriaid allanol, asiantaethau a darparwyr gwasanaethau	Bydd gwasanaethau cymorth yn amrywio yn dibynnu ar anghenion unigol y disgybl a'r cymorth sydd ei angen i fynd i'r afael â phryder diogelu. Yn nodweddiadol, bydd yr ysgol yn gweithio gyda'r gwasanaethau a'r asiantaethau canlynol at ddibenion diogelu; • Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Gwasanaethau i Blant, Gweithiwr Cymdeithasol • Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc • Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Gwasanaethau i Oedolion, Gweithiwr Cymdeithasol • Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Gwasanaethau Addysg e.e. Teuluoedd Cydnerth • Cwnselwyr Eye to Eye Bydd data personol yn cael ei rannu at ddibenion; • Atgyfeirio am gymorth • Asesu anghenion • Cyflwyno gwasanaethau cymorth • Adolygu anghenion a chymorth barhaus

	Os oes ymholiad penodol gyda chi ynglŷn â'r gwasanaethau sy'n ymwneud â'ch plentyn, cysylltwch â'r ysgol.
Carfan Data'r Awdurdod Lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf). Consortiwm Canolbarth y De Llywodraeth Cymru	• Ffurflenni statudol/adroddiadau Gwella Ysgolion
Rhieni/Gwarcheidwaid	• Atgyfeirio am gymorth • Asesu anghenion • Cyflwyno gwasanaethau cymorth Adolygu anghenion a chymorth barhaus
Gwasanaethau Brys	Yn achos pryder diogelu uniongyrchol

Proseswyr data

Mae proseswr data yn gwmni neu sefydliad sy'n prosesu data personol ar ran rheolwr. Mae'r ysgol yn defnyddio proseswyr data sy'n darparu gwasanaethau i ni. Dyma'r categori o broseswyr data y mae'r ysgol yn eu defnyddio mewn perthynas â phrosesu data diogelu;

- Cyflenwyr systemau TG cyffredinol / darparwyr gwasanaeth
- System rheoli achosion diogelu

Mae ein proseswyr data yn gweithredu ar ein cyfarwyddyd ni yn unig. Does dim modd iddyn nhw wneud unrhyw beth gyda'r data personol oni bai ein bod ni wedi eu cyfarwyddo i wneud hynny. Fyddan nhw ddim yn rhannu'r wybodaeth bersonol ag unrhyw sefydliad ar wahân i ni nac yn ei defnyddio at eu dibenion eu hunain. Byddan nhw'n ei dal yn ddiogel ac yn ei chadw am y cyfnod rydyn ni wedi'u cyfarwyddo i wneud hynny.

Os oes gyda chi ymholiad penodol yn ymwneud â'n proseswyr data, cysylltwch â'r Arweinydd Diogelu Data.

Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw'r data personol?

Rydyn ni'n cadw'r data personol sydd wedi'i gynnwys yn y cofnodion diogelu yn unol â Phecyn Cymorth Rheoli Gwybodaeth i Ysgolion y Gymdeithas Rheoli Cofnodion Gwybodaeth (IMRS);

Cofnod	Disgrifiad Syml o'r Cofnod	Darpariaeth Statudol	Cyfnod Cadw'r Wybodaeth
	Cofnodion Amddiffyn Plant		35 mlynedd
	Cofnodion Plentyn Sydd Angen Gofal		10 mlynedd
Gwybodaeth yn ymwneud â honiadau o gam-drin plant yn rhywiol			Mae rhwymedigaeth ar ysgolion i gadw cofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth am honiadau o gam-drin rhywiol ar gyfer yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA), am gyfnod yr ymchwiliad (mae rhagor o wybodaeth ar wefan IICSA).

Er mwyn dilyn egwyddor storio data Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, mae'r cofnodion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dydy'r holl ddata personol ddim yn cael ei gadw. Dim ond data personol sy'n berthnasol i'r cofnod sy'n cael ei gadw am y cyfnod cadw cyfan (e.e. dogfennau sy'n cynnwys asesiadau, penderfyniadau, deilliannau ac ati). Caiff unrhyw wybodaeth sy'n amherthnasol yn y tymor hir neu sy'n amherthnasol yn dystiolaethol ei dinistrio yn y cwrs busnes arferol.

Eich hawliau diogelu data

O dan gyfraith diogelu data, mae hawliau gyda chi y mae angen i ni eich gwneud chi'n effro iddyn nhw. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich data personol.

Eich hawl mynediad

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. Mae'r hawl yma'n berthnasol ar bob adeg. Mae rhai eithriadau, sy'n golygu efallai na fyddwch chi'n derbyn yr holl ddata rydyn ni'n ei brosesu bob amser. Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Eich hawl i'ch data gael ei gywiro

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni gywiro data personol sy'n anghywir yn eich barn chi. Hefyd, mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni gwblhau data sy'n anghyflawn yn eich barn chi. Mae'r hawl yma'n berthnasol ar bob adeg. Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Eich hawl i gael eich data wedi'i ddileu

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni ddileu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Eich hawl i gyfyngu ar sut mae sefydliadau'n defnyddio'ch data

Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth..

Eich hawl i wrthwynebu'r defnydd o'ch data

Mae'r hawl gyda chi i wrthwynebu i ni brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Eich hawl i drosglwyddo data
Mae hyn ond yn berthnasol i ddata personol rydych chi wedi ei roi i ni. Mae'r hawl gyda chi i ofyn i ni drosglwyddo'r data personol rydych chi wedi'i roi i ni o un sefydliad i'r llall neu ei roi i chi. Mae'r hawl yma ond yn berthnasol os ydyn ni'n prosesu'r data personol yn seiliedig ar eich caniatâd neu o dan ymrwymiad i gontract, neu wrth drafod derbyn contract, a bod y prosesu'n awtomataidd.
Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Does dim rhaid i chi dalu am arfer eich hawliau. Mae mis gyda ni i ymateb i'ch cais o'r dyddiad y caiff eich cais ei ddilysu. Mae modd i ni ymestyn y cyfnod yma am ddau fis arall os yw'r cais yn gymhleth neu os byddwn ni'n derbyn nifer o geisiadau gennych chi.
Cysylltwch ag Arweinydd Diogelu Data'r ysgol os ydych chi'n dymuno gwneud cais.

Eich hawl i wneud cwyn i'r ysgol ynghylch diogelu data

Mae'r hawl gyda chi i gwyno i'r ysgol os ydych chi o'r farn nad ydyn ni wedi trin eich data personol yn gyfrifol ac yn unol ag arfer da.

Os oes gennych chi bryder, rydyn ni'n eich annog i gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data yn y lle cyntaf. Mae modd datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gymharol gyflym trwy ffonio neu e-bostio'r ysgol. Os hoffech chi wneud cwyn ffurfiol mae modd i chi wneud hynny drwy ein polisi cwynion.

Eich hawl i wneud cwyn i'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch diogelu data
Mae modd i chi hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych chi'n anfodlon â sut rydyn ni wedi defnyddio'ch data, ond rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â ni yn y lle cyntaf.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

- Cyfeiriad: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
- Rhif y Llinell Gymorth: 0303 123 1113
- Gwefan: www.ico.gov.uk

Rheoli'r Fersiwn

Rhif y Fersiwn	Dilys o	Dilys hyd at	Sylwadau
1.0	09.08.2022		Llunio'r ddogfen. Y ddogfen derfynol.